

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun, **13 Chwefror 2017** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-02/17: Presennol

Cadeirydd Cyng. Robert Cadwalader

Cyng William A Evans; Cyng. Phil Jones; Cyng Henry Jones; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Robert T Price; Cyng Elizabeth Reagan; Cyng Eirwyn Williams; Clerc – Dr Catrin Jones.

2-02/17 Ymddiheuriadau:

Cyng Elizabeth George, Cyng Dafydd Lloyd; ; Cyng Wayne T Roberts, ; Cyng Sian Williams.

3-02/17: Datgan diddordeb

Ni wnaeth neb ddatgan diddordeb

4-02/17: Cadarnhau cofnodion mis Ionawr 2017

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-02/17: Eitemau brys ac er gwybodaeth

- a. **Criccieth yn ei Blodau – dathlu penblwydd yn 20 oed** ers sefydlu Criccieth yn ei Blodau – nodwyd bod gwahoddiad wedi dod i law i fynychu prynhawn agored yn Neuadd Goffa Criccieth 25 Chwefror 2017.
- b. **Neuadd Goffa Criccieth** Nodwyd bod gwaith sylweddol yn mynd yn ei flaen i adnewydd yr adeilad. Roedd y Neuadd wedi bod yn llwyddiannus i ennill grant ac roedd y Cyngor yn falch i nodi ei bod wedi cyfrannu i'r Neuadd.
- c. **Hysbysfwrdd y Cyngor** Roedd y Cynghorydd Henry Jones wedi cadarnhau y bydd yr ail wampio yn digwydd yn y dyfodol agos. Diolchwyd iddo am hyn.
- d. **Arolwg Cynghorau Tref a Chymuned gan Llywodraeth Cymru ac Un Llais Cymru** – Roedd gwahoddiad i lenwi arolwg fel rhan o'u hymchwil i'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu a'r asedau sy'n cael eu rheoli gan gynghorau tref a chymuned. Roedd yr arolwg ar agor o 23 Ionawr tan 30 Mawrth – Bydd y Cadeirydd, Is-Gadeirydd a'r Clerc yn paratoi drafft ymateb i'w gadarnhau yn y cyfarfod nesaf
- e. **Siarter Coed, Coedwigoedd a Pobl** –Nodwyd bod mwy na 50 o sefydliadau ar draws y Deyrnas unedig wedi partneri i lawnsio y Siarter ar 6 Tachwedd 2017. Bydd y siarter yn gosod allan canllawiau ac egwyddorion ar sut mae cymunedau lleol a choed yn medru cael y budd gorau o'u gilydd. Bydd yn adnodd y medr cymunedau a chynghorau ddefnyddio i gefnogi ei hymdrechion i ofalu am ei coed ac i sicrhau bod ei cymuned yn cael y buddion o hyn. Nodwyd bod y

Cadeirydd wedi llenwi yr holiadur ac y bydd y Clerc yn danfon y cyswllt i aelodau y Cyngor er mwyn iddynt fedru ymateb os y byddant yn dymuno gwneud hynny.

6-02/17: Gohebiaeth

- a. **Un Llais Cymru – Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei Papur Gwyn “Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddu** – wedi ei lawnsio ym mis Ionawr gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol . Roedd gwahoddiad i ymateb erbyn 11 Ebrill 2017.
Penderfyniad: Cytunwyd i rhoi cyswllt i’r ymgynghoriad ar Wefan y Cyngor ac i ystyried yr ymateb yn y cyfarfod nesaf. Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno ei sylwadau i’r Clerc yn y cyfamser.

- b. **Un Llais Cymru – Adroddiad Swyddfa Archwilwyr Cymru ar Rheolaeth Cyllidol Cyngorau Cymuned a Sesiwn Wybodaeth 27 Chwefror 2017.** Roedd pumed ymchwiliad blynyddol i reolaeth ariannol a llywodraethu dros 735 o gynghorau cymunedol ledled Cymru wedi dod i’r casgliad bod lle i ddatblygu a gwella rheolaeth ariannol a llywodraethu ymhellach, yn enwedig o ran ansawdd yr adroddiadau ariannol. Canfu ei gwaith fod dros 200 o gynghorau wedi derbyn barn archwilio amodol gan gynnwys nifer anghymesur o gynghorau llai. Daethant hefyd i’r casgliad fod angen gwella prydlondeb y ffordd y maent yn paratoi cyfrifon ac ansawdd y ffurflen archwilio. Roedd yr adroddiad yn terfynu drwy dynnu sylw at y ffaith yr edrychir yn fanylach ar y themâu allweddol mewn archwiliadau cyhoeddus yn y dyfodol a bod angen i gynghorau wneud mwy i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r rheoliadau, gan gynnwys gweithredu côd ymddygiad, a chanolbwyntio ar y ffordd y maent yn rheoli cronfeydd wrth gefn a balansau. Nodwyd y bydd webinar ar Reolaeth Ariannol a Llywodraethu mewn cynghorau cymuned am 6.30 yr hwyr ar 27 Chwefror. Annogwyd bawb i ymuno. Bydd y Clerc yn danfon y cyswllt i fedru cofrestru ar gyfer y webinar. Bydd y materion yma hefyd yn cael sylw gan yr Is-Bwyllgor Cyllid yn y cyfarfod i’w gynnal ar 6 Mawrth 2017.

- c. **Un Llais Cymru – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Digwyddiad Rhanddeiliaid BIPBC i bobl dros 50 oed a sy’n hŷn 14 Mawrth 2017 Gwesty’r Celt Caernarfon** Roedd gwahoddiad i gyfrannu at ddatblygu’r Fframwaith drwy fynychu’r digwyddiadd o 1.30 pm tan 4.30 pm.
Penderfyniad:Cytunwyd y dylai’r Cadeirydd fynychu.

d. Un Llais Cymru – Aelodaeth 2017/18 ‘Roedd llythyr wedi dod gan Un Llais Cymru i wahodd y Cyngor i adnewyddu ei aelodaeth o fis Ebrill 2017. Roedd y llythyr yn nodi sut mae Un Llais Cymru yn parhau i gynrychioli’r sector. Nodwyd bod dyfodol cyffrous a heriol yn wynebu Cyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru ac y bydd Llais Cymru yn parhau i ddatblygu ei rolau lobio a chynrychioli. Hefyd maent yn darparu gwasanaethau gan gynnwys– Cyngor cyfreithiol, Cyngor a chefnogaeth brydlon ac o ansawdd ar faterion o bwys i gynghorau, hyfforddiant, gwybodaeth gyffredinol trwy ei gwefan, Y gost aelodaeth ar sail 968 o anheddau trethadwy: 968, sef 0.292 c bydd £283.

Penderfyniad: Cytunodd y Cyngor i adnewyddu yr aelodaeth am 2017/18

e. Cyngor Gwynedd – Holiadur Cyngorau Cymuned – Ymchwiliad Trefn Cynllunio Cyngor Gwynedd. Roedd holiadur yn gwahodd sylwadau i drefn Cynllunio Cyngor Gwynedd.

Penderfyniad: Cytunodd y Cyngor i ymateb fel a ganlyn i’r holiadur

1. Roedd y Cyngor yn glir beth oedd ei rôl yn y broses cynllunio.
2. Ar y cyfan, nid oedd y Cyngor wedi derbyn hyfforddiant ar bolisiau cynllunio Cenedlaethol a lleol, ond roedd un aelod, sef y Cynghorydd Sir wedi derbyn cyngor.
3. Roedd y Cyngor yn derbyn gwybodaeth am geisiadau cynllunio yn yr ardal ar e-bost hy rhestrau cynllunio yn cael eu cylchredeg. Hefyd roedd yna ebyst uniongyrchol a chopi caled yn y post o rhai priodol. Nodwyd fodd bynnag na fyddai rhain yn cael eu danfon ar gyfer rhai ceisiadau.
4. Roedd y Cyngor yn anfodlon gyda’r ffordd yr oeddynt yn derbyn gwybodaeth/ymateb i ymholiad am nifer o rhesymau.
Cred y Cyngor bod angen sicrhau ei bod yn derbyn ebost uniongyrchol a chopi o’r cynlluniau drwy’r post ar bob adeg. Mae yna achlysuron pan nad yw hyn wedi digwydd pan bod ceisiadau yn cael ei hail gyflwyno. Dylid sicrhau bod proses ar gael i wneud yn siwr bod swyddogion cynllunio yn ymateb i ebyst a galwadau ffon i ymholiadau ac ateb cwestiynnau sy’n codi yn eu cylch yn amserol. Hefyd os oes cais yn cael ei ail gyflwyno dylai’r Cyngor gael gwybod beth sydd wedi newid yn y cais os o gwbl. Os yw y Cyngor Tref yn gwrthwynebu

cais, yna mi ddylie y cais fynd gerbron Pwyllgor Cynllunio y Sir, ac ni ddylid gael ei benderfynnu gan Swyddogion Cynllunio.

5. Nid oes rwystrau i gyflwyno sylwadau'r Cyngor dim ond i ni dderbyn y wybodaeth briodol gan y Cyngor Sir.
6. Er mwyn gwella'r profiad o ddelio gyda cheisiadau cynllunio:
 - i. Dylai y Cyngor dderbyn ebost uniongyrchol am bob cais priodol i'r ardal a chopi o'r cynlluniau drwy'r post.
 - ii. Dylai fod proses ar gael i sicrhau bod swyddogion cynllunio yn ymateb i ebyst a galwadau ffôn yn amserol i ateb cwestiynnau sy'n codi yn eu cylch.
 - iii. Os oes cais yn cael ei ail gyflwyno dylai'r Cyngor gael gwybod beth sydd wedi newid o'r cais gwreiddiol os o gwbl.
 - iv. Os yw y Cyngor Tref yn gwrthwynebu cais, yna mi ddylie y cais fynd gerbron Pwyllgor Cynllunio y Sir, ac ni ddylid gael ei benderfynnu gan Swyddogion Cynllunio.
- f. **100 Mlynedd o Gofio _ 11 Tachwedd 2018** – Roedd gwahoddiad wedi ei dderbyn i ymuno yn y coffa am ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, pryd y bydd 1,000 o oleuadau yn cael eu cynnu ar draws y Deyrnas Unedig.

Penderfyniad: Cytunodd y Cyngor i ymuno yn y coffa drwy drefnu bod yn rhan o gadwyn o oleuadau (beacons). Y lleoliad delfrydol ar gyfer hyn oedd Dinas. Byddai yn rhaid cysylltu gyda'r Cyngor Sir i wirio materion iechyd a diogelwch priodol. Cytunwyd hefyd y dylai'r Clerc holi a oes goleuadau pwrpasol ar gael neu a fydd angen trefnu adeiladu un traddodiadol. Hefyd, dylid gweld os y byddai modd trefnu ar y cyd gyda Chynghorau lleol eraill ee Porthmadog, Llanystumdwy, Dolbenmaen a Harlech.

- g. **BT – ymgynghoriad gwaredu ciosgs ffôn yn yr ardal** mae'n fwriad gyda BT waredu nifer o giosgs gan gynnwys:

Maes Eifion Rhoslan Criccieth LL52 ONN

Tyn Rhos Cricceith LL52 OBH

Pentrefelin Criccieth LL52 OPU

Llanystumdwy, Criccieth LL52 OSP–

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad ar sail diffyg defnydd yn ôl y ffigurau a dderbyniwyd.

- h. **Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian – gwahoddiad i rhoi materion i’w trafod yn y cyfarfod nesaf.** Nodwyd bod gwaith trîn wedi cychwyn ar y tyfiant Canclwm Japan a bod hon yn rhaglen pum mlynedd.
- Penderfyniad:** Cytunwyd gofyn i Arriva a fyddai modd trefnu un trên cyflym y dydd y ddwy ffordd ar Arfordir y Cambrian. Hefyd, gofyn i Network Rail am ddiweddariad ar waith i wella gwyneb croesffordd Criccieth yn dilyn damwain gan gerddwr.
- i. **Merched y Wawr – cais i gefnogi gosod murlun dathlu 50 y mudiad yng Nghriccieth.** Trafodwyd y cais a oedd wedi dod i law gan cangen Criccieth o’r mudiad i rhoi murlun cynrychioliadol ar y wal sydd ger y fynedfa i’r maes parcio yng nghefn y stryd fawr, ger siop Roy Williams. Roedd rhai cerfluniau/murluniau yno yn barod. Cangen Criccieth oedd y drydydd cangen o’r mudiad i gael ei sefydlu drwy Gymru a’r gyntaf yn Nwyfor yn 1967. Roedd y mudiad wedi gofyn i’r gangen i drefnu gweithgareddau i ddathlu’r achlysur yn y dref.
- Penderfyniad:** Cytunodd y Cyngor i gefnogi y cais mewn egwyddor gan nodi y byddai angen i’r gangen gael y caniatad priodol i wneud y gwaith yma gan berchennog y wal ac hefyd i sicrhau bod materion eraill fel iechyd a diogelwch wedi cael ystyriaeth briodol.
- j. **Ymgyrch i gael goleuadau stryd ar gyffordd Penlon, Trefor** Roedd cais wedi dod gan Cyngor Cymuned Llanaelhaearn i ofyn i’r Cyngor gefnogi ei hymgyrch i gael golau stryd ar gyffordd Trefor. Roedd hi’n gyffordd brysur ar ffordd gyflym ac roedd sawl digwyddiad wedi bod gan geir a oedd yn anwybodol am fodolaeth y gyffordd. Roedd Cyngor Gwynedd wedi gwrthod ei cais ar sail y gall golau ddifetha tangnefedd yr awyr dywyll. Gofynnwyd am lythyr o gefnogaeth gan y Cyngor.
- Penderfyniad:** Cytunodd y Cyngor i ddanfon llythyr o gefnogaeth mewn egwyddor i hyn.

7-02/17: Ceisiadau Cynllunio

- a. C16/0564/35/LL, Cais i godi 10 uned fforddiadwy Tir gwag Waen Helyg, Criccieth, Criccieth, Gwynedd LL52 ORR

Nodwyd penderfyniad Cyngor Tref Criccieth Mehefin 2016:

Cais C16/0564/35/LL

Cais i godi 10 uned fforddiadwy – tir gwag ger Waen Helyg

Penderfyniad: Doedd gan yr aelodau ddim gwrthwynebiad i adeiladau'r unedau fforddadwy, ond roedd ganddynt bryderon nad oedd lle wedi ei neulltio ar gyfer maes chwarae i'r plant. Roedd hyn yn bwysig gan y byddai'n rhaid i'r plant groesi ffordd brysur/beryglus i gyrraedd y man chwarae yn Ty'n Rhos. Dylid tanlinellu bod angen cae chwarae fel rhan o'r datblygiad.

Nodwyd hefyd nad oedd y Cyngor wedi derbyn gwybodaeth am yr ail gyflwyniad, heblaw am rhestr gynllunio Cyngor Gwynedd. Nid oedd chwaith wedi derbyn ymateb i ymholiadau a wnaethpwyd i'r Adran Gynllunio y gofynnwyd amdano erbyn y cyfarfod. Roedd y Cyngor ar ddeall yn answyddogol nad oedd newid i'r cais.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad ac i gyfeirio y posibilrwydd o gael maes chwarae i Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth.

- b. C17/0090/35/CT Gwaith ar goed o fewn Ardal Cadwraeth Pen Paled, Penpaled Road, Criccieth, Gwynedd LL52 OPH

Penderfyniad Danfon sylwadau. Mynegwyd pryder am y torri coed a oedd yn digwydd a bod gormod ohonno. Yn yr achos yma dylid torri y ffawydden a oedd yn tyfu drwy'r wal a torri canghennau'r dderwen. Roedd y Cyngor yn gefnogol i'r Siarter Coed, Coedwigoedd a Pobl a fydd yn cael ei lawnsio ym Mis Tachwedd 2017 a fydd yn gosod allan canllawiau ac egwyddorion ar sut mae cymunedau lleol a choed yn medru cael y budd gorau o'u gilydd

- c. C17/0020/35/LL Cais i dynnu amodau 10 a 11 o ganiatad C16/0233/35/LL er mwyn gallu cysylltu dwr ffo i'r garthffos Tir ger Dulais, Lon Ednyfed, Criccieth, Gwynedd LL52 OLD

Penderfyniad: Dim sylwadau.

8-02/17. Ceisiadau am gyfraniadau ariannol

- a. **Mynwent Newydd Llanystumdwy** – penderfyniad i gyfrannu £1000, yn dilyn a manylion a dderbyniwyd am rheolaeth y fynwent.
- b. **Pared Dewi Sant Pwllheli** cyfraniad o £100.
- c. **Bara Caws** Dim cyfraniad.

9-02/17: Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth

Derbyniwyd gofnodion ail gyfarfod y Grŵp ar 30 Ionawr 2017 ac roedd Cerys Thomas yn bresennol. . Nodwyd ac esboniwyd y prosiectau sydd eisoes wedi eu cynnig gan Gyngor Tref Criccieth, a thrafodwyd nifer o syniadau ar gyfer prosiectau newydd a diddorol i'w cynnwys yn y

Cynllun Cymunedol, a ffyrdd posib o'u hariannu o wahanol ffynhonnellau. Roedd y Grŵp yn hoff iawn o'r syniad o gael cystadleuaeth i fyfyrwyr am syniadau ar gyfer y Cynllun, ac o gael arddangosfa gyhoeddus o bosibiliadau yng Nghriccieth er mwyn cael adborth gan y gymuned leol. Byddai nifer o'r syniadau yn medru cael eu cyflawni mewn byr amser, tra byddai eraill yn brosiectau tymor hir, ac angen cael eu cyllido gydag arian o ffynhonnellau allanol. Cytunodd Cerys i grynhoi y syniadau i ddogfen gychwynnol a fyddai'n sail i greu Cynllun cynhwysfawr. Byddai hyn yn cynnwys:

- rhestr prosiectau
- posibiliadau cyllidol allanol
- y syniad o gael cystadleuaeth ar gyfer myfyrwyr
- ffyrdd o gael adborth o'r gymuned leoll

10-02/17: Parcio yng Nghriccieth

- a. Nodwyd bod y ffi parcio ar gyfer Abereistedd am fod yn £1 am 4 awr – yr un peth a maes parcio ffrynt ger Dylan's
- b. Roedd rhybudd cyfreithiol wedi dod gan Cyngor Gwynedd am gyfyngiadau parcio newydd yng Nghriccieth. . Roedd rhain wedi cael eu trafod gan y Cyngor o'r blaen.

Penderfyniad: Cytunwyd ar y newidadau ac i ddanfôn un sylw, sef i gynnig y dylai y llinellau melyn rhwn yr orsaf bad achub a Blue China fod yn rhai dwbl drwy'r flwyddyn.

11-02/17 Goleuadau Nadolig

Roedd y Clerc wedi danfôn i ofyn am gostau ar gyfer ychwanegu at y goleuadau ar gyfer Rhagfyr 2017 ac yn aros am ateb.

12-02/17: Llwybr o Benaber i'r parc

Nid oedd gwybodaeth bellach wedi dod i law oddiwrth Cyngor Gwynedd.

13-02/17: Torri gwair yn y dref

Yn y cyfarfod diwethaf trafodwyd y costau ar gyfer torri gwair gan Cyngor Gwynedd Cytunwyd i ofyn am cwôt torri un toriad yn yr ardaloedd coch a gwyrdd gan bedwar o contractwyr. Roedd tri ymateb wedi dod erbyn y dyddiad cau 3 Chwefror 2017. Agorwyd y tendrau yn y cyfarfod a chofnodwyd y prisiau a dderbyniwyd ar ffurflen a'i llofnodi.

Penderfyniad: Yn unol â pholisi y Cyngor, derbyniwyd y pris gorau ar gyfer y gwaith. Hefyd, cytunwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf y dylid ysgrifennu at Cyngor Gwynedd i ofyn faint o daliad y byddai'r Cyngor yn gael am drefnu gwaith torri gwair yn y dref ac hefyd holi am yr amserlen torri gwair ar gyfer 2017 er mwyn medru trefnu y toriad ychwanegol gan y contractwr.

14-02/17: Llyfrgell Criccieth ac offer a gedwir yn yr adeilad presennol

Doedd dim rhagor o wybodaeth wedi dod i law

15-02/17: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Age Cymru Gwynedd a Môn

Nodwyd y wybodaeth a oedd wedi dod i law a bod y Clerc wedi gofyn am wybodaeth o fantolen ar gyfer cronfa John Trefor Roberts. Cytunwyd y dylid trafod y gronfa yma yn y cyfarfod nesaf.

16-02/17 Llwybrau cyhoeddus

- Nid oedd gwybodaeth bellach wedi dod i law oddiwrth Cyngor Gwynedd am waith i drin y llwybr.
- Nodwyd bod y gwaith i ailwynebu y sgwar ger yr orsaf bellach wedi ei gwblhau.

17-02/17: Derbyniadau

Dim

18-02/17: Taliadau

• Cyllid y Wlad (PAYE) Ionawr		£76.80 (siec 101041)
• Cyflog y Clerc (Ionawr)		£306.54 (siec 101042)
• Siop Copi Pwllheli	£38.65 (siec 101043)
• Neuadd Goffa Criccieth		£5000.00 (siec 101044)
• Archwilwyr Allanol	...	£300.15 (siec 101045)

Rhodddwyd ganiatad i'r clerc i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.53 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref **nos Lun 13 Mawrth 2017.**

****Bydd y rhaglen yma yn cau 4 Mawrth 2017****